Cyngor Sgiliau'r Sector ar gyfer
Cemegau, Fferylleg, Niwclear, Olew a Nwy, Petroliwm a Pholymerau

www.cogent-ssc.com

Mae'r **diwydiant Niwclear** yn cynnwys:

- Cynhyrchu a chyfoethogi tanwydd
- Amddiffyn - yr ataliad niwclear
- Dadgomisiynu a glanhau
- Prosesu Tanwydd
- Cynhyrchu Pŵer
- Rheoli Gwastraff

Mae pŵer niwclear yn darparu tua 18% o drydan y DU, ac o wneud hyn, yn arbed allyriadau sy'n gyfwerth â rhai'r rhan fwyaf o geir ar ffyrdd y DU. Mae gweithrediadau'r cylchred tanwydd niwclear yn y Du o bwysigrwydd rhyngwladol, sy'n gallu darparu ar gyfer holl anghenion y DU a llawer o'r galw allforio. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhedeg fflyd o longau tanfor niwclear, gan gynnwys y dosbarth Astute newydd, ac mae'n cynnal rhaglen Trident.

Mae'r diwydiant yn wynebu heriau technegol a pheirianegol nawr ac yn y dyfodol o'r dadgomisiynu a glanhau diogel a chost-effeithiol o orsafoedd pŵer a chanolfannau prosesu tanwydd, sy'n cael eu cau yn raddol. Mae'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear yn gyfrifol am ddadgomisiynu gweithiau niwclear sifil y DU a glanhau'r safleoedd er 1 Ebrill 2005. Cefnogir gweithredwyr y diwydiant gan amrywiaeth helaeth o gwmnïau'r gadwyn gyflenwi, megis contractwyr peirianneg ac adeiladu, gwneuthuuyr offer arbennigol, cynhyrchwyr a darparwyr gwasanaethau arbennigol. Mae'n rhaid i gwmnïau sy'n ymwneud â chynllunio neu ddarparu offer neu ddefnyddiau â chysylltiad diogelwch gwrdd â gofynion ansawdd llym, ac mae arnynt angen gwybodaeth ategol am waith y diwydiant.

Mae hefyd elfen ryngwladol sylweddol i fusnes diwydiant y DU. Mae profiad a sgiliau o fewn y diwydiant mewn rhedeg adweithyddion, cynllunio ac adeiladu, cynnal ac archwilio, rheoli gwastraff a thechnoleg dadgomisiynu, yn darparu sail dda i fusnes allforio i farchnad ryngwladol gynyddol. Mae gan nifer o gwmnïau niwclear Prydain fusnes sylweddol mewn marchnadoedd y sector niwclear dramor. Mae'r Papur Gwyn ar Ynni, a ryddhawyd yn ddiweddar, hefyd yn amlygu'r potensial am adeiladu newydd yn y DU.

Darlun economaidd o'r Sector Prosesu Tanwydd Niwclear[1]

Diwydiant	Trosiant	Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC)[2]	GYC y gweithiwr
			Cyfartaledd
Cyfansymiau	**£1.55bn**	**£0.79bn**	**£60,692**

Manylion y diwydiant[3]

Y DU yw'r **10fedwlad** yn y byd o safbwynt cynhyrchu pŵer niwclear.

Creodd diwydiant Niwclear y DU **69.2 biliwn kWh yn 2006.**

Mis Mai 2007, roedd diwydiant Niwclear y DU yn **6ed** yn y byd o safbwynt nifer y gorsafoedd pŵer a oedd yn dal i weithredu

Mae gan y Llynges Frenhinol **15 llong** danfor niwclear mewn gwasanaeth

Mae'r orsaf bŵer Niwclear yn y DU i fod i gau yn 2035

Disgwylir i gost dadgomisiynu a glanhau yn 2007/08 fod yn **£1.10 bn**

[1]Ymchwiliad Busnes Blynyddol 2005 - data wedi'u rhyddhau Fis Tachwedd 2006, ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[2]GYC yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir a chost nwyddau crai ac eitemau mewnbwn eraill a ddefnyddir yn ystod y cynhyrchu
[3]Sefydliad Ynni Niwclear www.nei.org

Gweithlu'r Diwydiant Niwclear[4]

Dosraniad y Gweithlu	
Nifer o Gyflogwyr	200
Nifer o weithwyr SET	**50,000•**
– Prosesu tanwydd	13,000
– Dadgomisiynu	12,000
– Amddiffyn	9,000
– Cynhyrchu Pŵer	13,000
– Rheoli Gwastraff	3,000
Oedran y gweithlu[5]	
– 16-24	6%
– 25-34	28%
– 35-44	35%
– 45-54	21%
– 55+	10%

• Gall amcangyfrifon o'r diwydiant fod yn fwy na data gweithwyr yr Ymchwiliad Busnes Blynyddol oherwydd gweithlu contractwyr a chyfyngiadau SIC

Ethnigrwydd[5]	
– Gwyn	96%
– Heb fod yn wyn	4%
Rhyw[5]	
– Benywaidd	18%
– Gwrywaidd	82%

Dosraniad galwedigaethau[6]	
Rheolwyr ac Uwch Swyddogion	4%
Galwedigaethau proffesiynol	38%
Proffesiynol a Thechnegol	13%
Cysylltiol Gweinyddol ac Ysgrifenyddol	11%
Galwedigaethau Crefftau Medrus	24%
Galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid	0%
Gweithwyr Prosesau, Offer a Pheiriannau	5%
Galwedigaethau Elfennol	5%

Y Bwlch Sgiliau[5]

Y Bwlch Sgiliau yn y Diwydiant Niwclear



Mae gorgyflenwad o bobl â chymwysterau S/NVQ level 1 ac yn is, o'i gymharu â nifer y swyddi yn y lefel hon yn y diwydiant Prosesu Tanwydd Niwclear.

Mae swyddi elfennol yn cynrychioli dim ond 5% o'r holl weithlu.

Mae 12% YN ORMOD o bobl â chymwysterau S/NVQ lefel 1 ac yn is.

Mae diffyg o bobl â chymwysterau S/NVQ level 2 a 3, o'i gymharu â chyfran y swyddi yn y lefelau hyn yn y Diwydiant Prosesu Tanwydd Niwclear.

Mae galwedigaethau lefel 2 a lefel 3 yn cynrychioli 53% o'r Diwydiant Niwclear.

Mae DIFFYG o 33% o bobl â chymwysterau S/NVQ lefelau 2 a 3.

Rhestriad y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC)[7]

Y diwydiant Niwclear yn ôl cod SIC: 23.30 Prosesu Tanwydd Niwclear

[4]Academi Sgiliau Cenedlaethol – Amcangyfrifon niwclear 2007
[5]Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Niwclear 2005
[6]Arolwg o'r Gweithlu, Ionawr 2006 - Rhagfyr 2006 (Prosesu Tanwydd Niwclear yn unig)
[7]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2003

Manylion Cyswllt

Cyfeiriad y swyddfa
Cogent SSC Cyf, Uned 5,
Mandarin Court, Centre Park,
Warrington, Cheshire WA1 1GG

Cyfeiriad e-bost
research@cogent-ssc.com

Gwefan
www.cogent-ssc.com

NUC006

Mae'r data'n ddilys tan Fis Mehefin 2008